BE THE WAVE
AR FRIG Y DON

# Llygredd Plastig

Gwybodaeth Gefndirol




cadwch keep gymru'n wales daclus tidy

MARINE CONSERVATION SOCIETY

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd
European Structural and Investment Funds

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Flwyddyn ar ôl blwyddyn, plastig sy'n ffurfio'r rhan fwyaf o'r sbwriel a geir ar ein traethau, yn y DU a llawer o wledydd ledled y byd.

Amcangyfrif bod 8 miliwn darn o blastig yn mynd i mewn i'r cefnforoedd bob dydd ac yn cael effaith ar yr holl ecosystem. Mae hyn yn cyfateb i daflu llwyth tryc o sbwriel i'r cefnfor bob munud!

Yn wahanol i ddeunyddiau organig, nid yw plastig byth yn 'diflannu' mewn natur ac mae'n casglu yn yr amgylchedd. Mae'r rhan fwyaf o blastig wedi'i deillio o danwydd ffosil ac nid yw'n fioddiraddadwy. Mae plastigau yn dirwyo'n araf iawn, ond bydd golau haul, halen, dŵr a'r tonnau'n torri plastigau mwy i ddarnau llai byth.

Plastig yw 80% o sbwriel morol sydd ar wyneb y dŵr a'r gwaelodion (IUCN, 2018).

Mae cadernid, cost isel a hyblygrwydd plastig yn golygu ei fod yn cael ei ddefnyddio mwy a mwy mewn nwyddau defnyddwyr yn ogystal â nwyddau diwydiannol. Pob blwyddyn mae mwy na 300 miliwn tunnell o blastig yn cael ei gynhyrchu, ac amcangyfrifir bod 8,300 miliwn tunnell o blastig newydd sbon wedi'i gynhyrchu hyd yn hyn.

Oherwydd y swm enfawr o blastig sy'n cael ei gynhyrchu'n fyd eang, mae'n hanfodol ein bod yn rheoli'r ffyrdd rydym yn cynhyrchu, defnyddio a gwaredu'r deunydd modern hwn.

Gall llygredd plastig gael effeithiau difrifol ar y cefnfor a phopeth mae'n ei gefnogi. Gall gynnwys popeth plastig mawr neu fach. Mae bagiau plastig, deunydd lapio bwyd, offer pysgota a microplastigau bychain i gyd yn dylanwadu ar yr amgylchedd morol.

**Canlyniadau Llygredd Plastig**

Rydym yn dod yn fwy ymwybodol o effaith plastig ar ein cefnforoedd.

Mae goblygiadau enfawr i gannoedd o rywogaethau morol oherwydd ein defnydd o blastig. Mae creaduriaid gan gynnwys adar môr, morfilod, pysgod a chrwbanod yn camgymryd sbwriel plastig am fwyd, yn aml yn arwain at newyn gan na allant dreulio'r plastig sy'n llenwi eu stumogau.

Mae morloi a mamaliaid morol eraill mewn perygl o gael eu dal mewn eitemau fel rhwydi pysgota sy'n cael eu taflu'n bennaf o ganlyniad i dywydd gwael a physgota anghyfreithlon. Yn aml, mae'r creaduriaid hyn yn boddi yn y rhwydi anghofiedig, ffenomenon a elwir yn bysgota anfwriadol a gall eraill ddioddef o rwygiadau, heintiau, problemau'n nofio ac anafiadau mewnol.

Gall cerrynt cefnfor symud plastigau ar draws y byd. Gall anifeiliaid bach a phlanhigion lanio ar ddarnau o blastig a theithio gyda'r cerrynt, gan gyflwyno rhywogaethau anfrodorol i ardaloedd newydd sy'n achosi niwed i'r ecosystem honno.

Mae llawer o'r cemegau sy'n cael eu defnyddio yn y broses o greu plastig yn garsinogenaidd. Gall halogyddion gwenwynig gronni ar wyneb deunyddiau plastig sydd wedi diraddio ac wedi bod o dan y dŵr am gyfnod hir. Pan fydd anifeiliaid morol yn llyncu plastig yn ddamweiniol, mae'r halogyddion gwenwynig hyn yn mynd i mewn i'w systemau treulio a gallent gronni yn y we fwyd dros gyfnod o amser, gan gael effaith uniongyrchol yn y pen draw ar iechyd dynol.

Gwyliwch fideo BBC Earth Lab am wybodaeth ar blastig yn y gadwyn fwyd.

**Plastigau untro**

Mae plastigau untro neu blastigau tafladwy yn cael eu defnyddio ond unwaith cyn iddynt gael eu taflu neu'u hailgylchu. Bagiau untro, poteli plastig, cynhwysyddion bwyd a deunydd lapio bwyd yw'r pedwar eitem fwyaf cyffredin sy'n llygru'r moroedd ac maen nhw'n ffurfio bron hanner y gwastraff a wneir gan ddyn.

Ni ellir ailgylchu llawer o'r eitemau plastig untro sy'n cael eu cynhyrchu. Mae'n amlwg bod angen i ni ddefnyddio llai o blastig, symud tuag at nwyddau a gwasanaethau amgylcheddol cynaliadwy a datblygu technoleg sy'n ailgylchu plastig yn fwy effeithlon.

Mae'r Gymdeithas Gadwraeth Forol yn dweud - "Rhaid i ni gefnu ar ein dibyniaeth ar blastig untro. Allwn ni ddim ailgylchu ein hunain allan o'r argyfwng plastig presennol".

Mae Llywodraeth Cymru am wahardd rhai eitemau plastig untro sy'n anodd eu hailgylchu. Yn anffodus mae'r eitemau hyn i'w gweld yn aml ar arfordir Cymru. Mae'n cynnwys ffyn cotwm, cytleri plastig, troyddion diod, gwellt, cwpanau untro wedi'u gwneud o bolystyren, cynhwysyddion tecawê wedi'u gwneud o bolystyren, plastigau a ffyn balŵn. Maent hefyd yn edrych ar nwyddau penodol sy'n diraddio'n ddarnau micro gan gynnwys bagiau siopa a rhai poteli plastig.

Mae Llywodraeth y DU yn edrych ar sut i gyflwyno cynllun 'Cyfrifoldeb Estynedig i Gynhyrchwyr'; sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i'r cynhyrchwyr dalu am y deunydd plastig maen nhw'n eu rhoi ar y farchnad. Gobeithir y bydd hyn yn arwain at lai o becynnu yn y pendraw a bydd mwy o blastig wedi'i ailgylchu yn cael ei ddefnyddio yn hytrach na phlastig newydd sbon. Mae llywodraethau'r DU a Chrymu'n edrych ar y cyd ar gynlluniau i gyflwyno Cynllun Dychwelyd Ernes ar gyfer pob cynhwysydd diod (erbyn 2025 os nad yn gynt).

Mae manylion am ddogfennau gwybodaeth ac ymgynghori yma: https://llyw.cymru/strategaeth-economi-gylchol ac mae ymrwymiad Llywodraeth Cymru i leihau gwastraff a phlastig diangen wedi'i lunio yn y strategaeth economi gylchol: 'Beyond Recycling',sy'n anelu at gael Cymru sero gwastraff erbyn 2050.

cadwch gymru'n daclus
keep wales tidy

33-35 Heol yr Eglwys Gadeiriol, Caerdydd, CF11 9HB | 33-35 Cathedral Rd, Cardiff, CF11 9HB
029 2025 6767 keepwalestidy.cymru info@keepwalestidy.cymru

Cadwch Gymru'n Daclus yn gwmni wedi ei gyfyngu trwy warant. Rhif Cwmni: 4011164 Rhif Elusen: 1082058 Rhif TAW: 850 3958 13
Keep Wales Tidy is a Company Limited by Guarantee. Company Registration Number: 4011164 Charity Registration Number: 1082058 VAT Registration Number: 850 3958 13